

Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw cyfoethogi eich profiad o “Fardd Owain Glyndŵr”. Mae’r gweithgareddau yn rhoi syniadau ar gyfer y cyfnod cyn yr ymweliad, yr ymweliad ei hun a’r cyfnod wedi’r ymweliad. Maent i gyd wedi’u hanelu at gyflawni amcanion yn y cwricwlwm presennol yng Nghymru a Lloegr, ac yn cwmpasu’r ethos wrth wraidd “Mantell yr Arbenigwr”.

Cyd-destun

Caiff myfyrwyr eu gwahodd i gymryd rôl bardd canol oesol. Mae Owain Glyndŵr yn brysur yn ymosod ar gestyll sydd yn nwylo’r Saesneg, ac mae’n hanfodol bod milwyr a chefnogwyr Owain yn cael gwybod beth sy’n digwydd, er mwyn cynnal eu hyder yng ngwrthryfel Owain.

Mae’r bardd presennol mor brysur fel ei fod wedi gofyn i’r plant ei helpu – mae’n credu mai nhw yw’r unig bobl leol sy’n llythrennog. Mae ef angen iddynt rannu ei lwyth gwaith, drwy greu eu newyddion eu hunain, drwy storïau, barddoniaeth neu ganeuon, am y digwyddiadau a ddigwyddodd yn ddiweddar yn y castell lleol (sef y castell y mae’r plant yn bwriadu ymweld ag ef). Eu tasg fydd hysbysu eu cymdogion o lwyddiant Owain ac ennill mwy o gefnogaeth iddo; bydd hynny’n rhoi cyfle i Fardd Owain deithio i’r castell nesaf.

Ar ôl i’r plant gyflawni gweithgareddau yn yr ysgol i ddeall cefndir Owain Glyndŵr, a rôl bardd yn y cyfnod yma, bydd yn bosibl archebu un o’n sesiynau rhyngweithiol i’r dosbarth gan ddewis castell o’n rhestr. Bydd y dosbarth yn cwrdd â’r bardd, yn dysgu am ei daith ac yn clywed y newyddion diweddaraf. Bydd yn rhoi cyngor iddynt er mwyn iddynt hwythau hefyd ddod yn feirdd. Bydd y sesiwn yn para am hanner awr.

Ar ôl y sesiwn hon, bydd y plant yn cael eu hannog i archwilio’r castell, er mwyn casglu syniadau a fydd yn eu helpu i greu eu stori eu hunain nôl yn yr ysgol. Ar ôl yr ymweliad, bydd y plant yn cael eu hannog i arbrofi wrth ysgrifennu storïau, cerddi, caneuon neu ddramâu, cyn dewis y cyfrwng sydd orau ganddynt. Daw’r profiad i ben gyda’r plant yn perfformio fel beirdd o flaen eu cyd-ddisgyblion neu gymuned ehangach yr ysgol.

Cysylltiadau'r Cwricwlwm	
Cwricwlwm Presennol Hanes Cymru	
Cyfnod Allweddol 1	Amser a phobl Mae storïau hefyd yn gallu helpu plant i ddeall y cysyniad o hen a newydd, a dylanwad digwyddiadau a chymeriadau'r gorffennol, (er enghraifft cymeriadau o hanes Cymru).
Cyfnod Allweddol 2	Astudio Bywyd bob dydd pobl yn byw naill ai yn Oes y Tywysogion neu yn amser y Tuduriaid neu amser y Stiwartiaid.
Cyfnod Allweddol 3	Archwilio a dehongli'r cyd-destunau hanesyddol canlynol mewn trefn Gronolegol Sut effeithiodd dyfodiaid y Normaniaid ar Gymru a Phrydain rhwng 1000 a 1500.
CBAC Hanes TGAU	Uned 3C Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw
Cwricwlwm Hanes Lloegr Presennol	
Cyfnod Allweddol 1	Astudio Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw o arwyddocâd cenedlaethol neu'n fyd-eang
Cyfnod Allweddol 2	Astudio Agwedd neu thema yn hanes Prydain sy'n ymestyn gwybodaeth Gronolegol disgyblion y tu hwnt i 1066.
Cyfnod Allweddol 3	Astudio Datblygiad yr Eglwys, y wladwriaeth a'r gymdeithas ym Mhrydain y Canol Oesoedd 1066-1509 Natur newidiol pŵer gwleidyddol ym Mhrydain, gan olrhain astudiaethau achos dethol o'r Oes Haearn hyd heddiw
Y Cwricwlwm newydd i Gymru	
Meysydd Dysgu a Phrofiad	Bydd plant yn dod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog Byddant yn meithrin, yn cyfleu ac yn cymhwyso'n effeithiol wybodaeth gadarn am gysyniadau hanesyddol, daearyddol, gwleidyddol, economaidd, crefyddol a chymdeithasol, yn ogystal â dealltwriaeth ohonynt.
Dyniaethau	Yr Hyn sy'n Bwysig 2. Mae ymddygiad a chredoau dynol wedi siapio cymdeithas, a dylanwadu arni 4. Mae pobl yn gweld profiadau'r ddynoliaeth drwy lygaid gwahanol. 5. Mae'r broses ymholi yn galluogi pobl i wneud synnwyr o'r byd, ac ymgysylltu ag ef

Cam 1: Cyflwyno'r plant i'r prosiect

Mae'r athro yn dangos sgrôl i'r plant ac yn esbonio ei fod wedi ymweld â *Chastell Harlech* dros y penwythnos. Yn sydyn, daeth fflach o olau, a phan aeth yr athro at y golau, gwelodd y sgrôl yn gorwedd ar y llawr. Byddant yn esbonio eu bod wedi sganio'r sgrôl er mwyn i'r holl blant weld yn iawn ar y bwrdd rhyngweithiol. (Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r pecyn adnoddau, gweler atodiad 1). Bydd yr athro yn gwahodd y plant i ddarllen y sgrôl, ac ar y diwedd, bydd yn gofyn i'r plant, "pa gwestiynau ydyn ni angen canfod yr atebion iddynt, er mwyn deall y sgrôl yn iawn?"

Cwestiynau ymholi:

- O ba gyfnod amser ddaw'r bardd?
- Beth yw bardd?
- Pwy oedd Owain Glyndŵr?
- Ble mae *Castell Harlech*?
- Beth oedd prif ddigwyddiadau hanesyddol y cyfnod hwn?
- Pam bod y digwyddiadau hyn yn achosi cymaint o wrthdaro rhwng y Cymry a'r Saeson?
- Sut effeithiodd y gwrthdaro hwn ar fywydau diwylliannol a domestig pobl?
- Sut allwn ni fynd nôl mewn amser i helpu?
- Beth fyddai angen i ni allu ei wneud er mwyn helpu?
- Beth fyddai'r peryglon?

Cam 2: Cyflwyno'r syniad o borth

Bydd yr athro'n gofyn i'r plant os ydynt yn gwybod am unrhyw lyfr, rhaglen deledu ffilm, lle mae'r prif gymeriad neu'r prif gymeriadau wedi'u cludo nôl i fyd gwahanol. Gallai'r athro eu cyfeirio at:

- Dr Who a'r Tardis
- Plant Pevensie, yn teithio drwy'r cwpwrdd dillad i Narnia
- Alys, yn teithio i lawr y twll cwningen i Wlad Hud

Bydd yr athro'n esbonio bod yr holl enghreifftiau hyn yn fathau o byrth. Fel dosbarth, gan ddefnyddio'r bwrdd rhyngweithiol, bydd y plant yn gweld enghreifftiau gweledol o byrth. Bydd yr athro'n esbonio y bydd yn rhaid i'r dosbarth ddychmygu eu bod yn mynd drwy borth ac yn teithio nôl mewn amser i helpu'r bardd.

Cwestiynau ymholi

- Sut fyddai eu porth yn edrych?
- Ble fyddai eu porth?
- Pa ddelweddau o'r gorffennol fydden nhw'n eu gweld tu mewn?

Tasg – Pa ddelweddau o’r gorffennol fydden nhw’n eu gweld tu mewn?

Ymchwiliwch ddigwyddiadau allweddol i bob canrif, yn ôl i 1400. Canolbwyntiwch ar un digwyddiad allweddol i bob canrif. Mae cysylltiadau clir rhwng y gweithgaredd hwn â’r **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** dan **Cynhyrchu**.

Enghreifftiau o gysylltiadau gyda’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol	Cynllunio, cyrchu a chwilio	Creu
Blwyddyn 1	defnyddio testun wrth chwilio am wybodaeth/cyfryngau (delwedd, fideo, sain) a defnyddio porwr rhyngwrwyd yn annibynnol, e.e. agor porwr a theipio un allweddair i chwilio.	Delweddau Mewnforio ffotograff fel cefndir, a’i wella gan ddefnyddio offerynnau graffeg syml.
Blwyddyn 3	datblygu strategaethau ar gyfer dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol allweddeiriau a thechnegau, e.e. dilyn set o gyfarwyddiadau gam wrth gam am sut i chwilio am wybodaeth sy’n briodol i dasg yn effeithiol a dewis gwefan briodol drwy sgimio drwy nifer bychan o ffynonellau.	Delweddau Mewnforio delwedd, Ychwanegu effeithiau, fframiau a chysgod, fel sy’n briodol i wella dogfen.
Blwyddyn 5	addasu allweddeiriau a thechnegau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol; dechrau cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd yn eu gwaith; ystyried a yw’r cynnwys yn ddibynadwy, e.e. dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio termau cywir, defnyddio ystod o ffynonellau i wirio dilysrwydd a deall effaith gwybodaeth anghywir.	Delweddau Ychwanegu mwy nag un ddelwedd i ddogfen. Rhoi’r delweddau i orgyffwrdd gan sicrhau y gellir gweld y rhan sydd ei hangen o bob llun drwy aildrefnu ym mha drefn y maent yn gorwedd.

I blant iau, gallent weithio mewn grwpiau a chael canrif benodol i edrych arni. Gallai plant hŷn edrych ar bob canrif. Trwy ddangos rhannau o waith gorffenedig ar y bwrdd rhyngweithiol, mae’n bosibl i’r athro sicrhau bod gan holl blant ddealltwriaeth well o drefn gronolegol, a lle mae Owain Glyndŵr yn gorwedd ar y llinell amser, (mae dolen i linell amser weledol ar gael yn y pecyn adnoddau, gweler atodiad 2).

Mae'n bosibl i'r plant wedyn gwblhau'r gweithgaredd drwy ddewis eu delwedd o'r 1400au, a gosod y ddelwedd hon yn ffenestr eu porth. Gellir gwneud hyn yn ddigidol, neu drwy ddefnyddio'r daflen waith sydd yn y pecyn adnoddau, (gweler atodiad 3).

Cam 3: Deall rôl bardd

Bydd yr athro yn gofyn i'r plant ystyried sut fyddai bardd yn edrych yn y 15fed ganrif, pe byddent yn camu drwy eu porth.

Cwestiynau ymholi

- Pa ddillad fyddai'r bardd yn gwisgo?
- Pa offer fyddai'r bardd yn ei gludo?
- Pa iaith fyddai'r bardd yn siarad?
- Pa fath o gerddoriaeth fyddai ar gael yn yr amser hwn?
- Pa fath o arian fyddai gan y bardd?
- Pa fath o fwyd fyddai'r bardd yn ei fwyta?
- Pa enghreifftiau o farddoniaeth, caneuon neu storïau sydd wedi goroesi o'r amser hwn?

Tasg – Creu sach gefn ddigidol yn dangos beth fydd ein bardd yn debygol o fod yn ei gludo.

Mae cysylltiadau clir hefyd rhwng y gweithgaredd hwn â'r **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** dan **Cynhyrchu** (gweler y tabl uchod). Mae delweddau o bobl o'r canol oesoedd yn y pecyn adnoddau, (gweler atodiad 4).

Cam 4: Dysgu am fywyd a chyfnod Owain Glyndŵr

Bydd yr athro yn gofyn i'r plant gynnal gweithgaredd mapio meddwl, fel dosbarth cyfan neu o fewn grwpiau. O gam 2, dylai fod dealltwriaeth sylfaenol ganddynt o bwy oedd Owain Glyndŵr. Bydd y plant yn cael eu gofyn i greu dwy golofn; un yn rhestru beth maent yn ei wybod yn barod, a'r llall yn rhestru beth hoffent ei wybod. Bydd y gweithgaredd hwn yn bwydo gweithgaredd dosbarth cyfan, lle caiff cwestiynau ymholi eu rhestru, yn seiliedig ar beth mae'r plant eisiau ei ddysgu. Gallai'r athro ychwanegu cwestiynau hefyd, os oes angen ymestyn ychydig ar y cwestiynau a ddaw o'r plant.

Tasg – Creu taflen wybodaeth am Owain Glyndŵr, wedi'i hanelu at ymwelwyr (gallai plant iau greu poster).

Gan ddefnyddio rhestr o gwestiynau ymholi'r dosbarth, gallai'r plant ddewis cwestiynau y byddai ymwelydd yn eu cael yn ddefnyddiol. Byddai angen penderfynu beth yw oedran y gynulleidfa darged fan hyn. Trwy ymchwilio'r atebion i'r cwestiynau a ddewiswyd ganddynt, bydd y plant yn ffurfio set o ffeithiau y gellir eu defnyddio o fewn y daflen.

Mae cysylltiadau clir rhwng y dasg hon a'r rhaglen astudio ysgrifennu yn Gymraeg.

Cyfnod Allweddol	Ystod o brofiadau
Sylfaen	<ul style="list-style-type: none">Gwneud marciau neu ysgrifennu mewn ystod o genresCyfathrebu mewn ystod o gyd-destunau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3	<ul style="list-style-type: none">Ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion, gan gynnwys i hysbysuYsgrifennu gan ddefnyddio ystod o destunau di-dor a phytiog mewn amryw o ffurfiau, gan gynnwys taflenniYsgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol

Gallwch ystyried cysylltu â'r castell a ddewiswch. Os yw rhai o'r taflenni neu bosteri'n ddwyieithog, mae'n bosibl y byddai'r staff yn gallu eu harddangos i ymwelwyr gael eu gweld.

Cam 5: Ymweld â'r cleient, bardd Owain Glyndŵr

Bydd y plant yn cael eu hannog i ddychmygu, pan fyddant yn dod oddi ar y bws/trên/bws mini, eu bod yn cerdded drwy borth yn ôl i'r 1400au cynnar. Byddant yn cwrdd â'r bardd am hanner awr. Yn ystod yr amser hwn, byddant yn cael profi perfformiad, sef y math o beth y byddant yn ceisio'i efelychu pan fyddant nôl yn yr ysgol. Drwy ganeuon, cerddoriaeth neu storïau, bydd y plant yn dysgu am ddigwyddiadau diweddar yn y cestyll cyfagos (ond nid yn y castell y maent yn ymweld ag ef). Bydd y bardd yn sôn am y canlynol:

- Beth yw camp ddiweddaraf Owain Glyndŵr?
- Sut mae hyn wedi helpu neu arafu ymgyrch y Cymry?
- Sut mae hyn wedi effeithio ar fywydau pob dydd pobl sy'n byw gerllaw?

Bydd y bardd yn esbonio sut mae'n mynd ati i gasglu ysbrydoliaeth ar gyfer ei waith. Bydd yn dweud wrth y plant:-

- Sut mae'n siarad gyda phobl leol i gasglu ffeithiau
- Sut mae'n braslunio'r castell i helpu'r cof
- Sut mae'n rhestru beth mae'n ei glywed a'i arogl
- Sut mae'n rhestru ansoddeiriau i gyfleu'r awyrgylch
- Pa mor bwysig yw sicrhau ei fod yn dangos ei gyflogwr, (Owain Glyndŵr), ar ei orau, beth bynnag sydd wedi digwydd.

Wrth i'r sesiwn ddod i ben, bydd y bardd yn annog y plant i archwilio'r castell i gasglu eu hysbrydoliaeth eu hunain. Mae adnoddau ar gael ar-lein, i gynorthwyo'r plant i gofnodi eu profiadau os oes eu hangen. Mae hyn yn cynnwys map cyfeiriannu a thaflen gofnodi (gweler atodiad 5 a 6).